Cynorthwywyr Addysgu Lefel 2 Arbennig

32.5 awr yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol yn unig

Cyflog: Graddfa 5 Pwynt 7 i bwynt 9 £27,274 to £28,153 y flwyddyn pro rata

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn effeithiol iawn yn galluogi oedolion ac yn chwaraewr tîm, bydd ganddo/ganddi agwedd gadarnhaol tuag at ddarparu cymorth ar gyfer ymddygiad heriol difrifol a phrofiad o weithio gyda phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol cymhleth, ac yn barod i ymgymryd â hyfforddiant i ddatblygu eu gwybodaeth ymhellach.

Cymorth i disgyblion:

- Cefnogi unigolion neu grwpiau yn ystod gwaith annibynnol/grŵp, e.e. esbonio tasgau, atgyfnerthu amcanion/cysyniadau neu eirfa allweddol, defnyddio offer ymarferol, cefnogi disgyblion llai abl, ymestyn/herio'r mwy abl, cadw disgyblion ar dasg, cadw eu diddordeb, eu cymhelliant ac ymgysylltu.
- Rhoi trefn a strwythur cyson ar waith
- Ymgysylltu disgyblion mewn sesiynau Sylw Awtistiaeth
- Defnyddio dull cyfathrebu cyfan a chyson
- Mabwysiadu'r dull TEACCH i gefnogi sgiliau dysgu annibynnol
- Helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a gweithgareddau chwarae rôl.
- Cynorthwyo gyda datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion a datblygu hunan-barch.
- Annog ac atgyfnerthu rhyngweithiadau cadarnhaol rhwng disgyblion sy'n gweithio o fewn unrhyw dargedau ymddygiad a osodwyd.
- Nodi ac adrodd ar unrhyw batrymau ymddygiad sy'n wahanol i'r arfer.
- Monitro a darparu gofal cyffredinol, diogelwch a lles disgyblion, gan gynnwys tasgau sy'n gysylltiedig ag addysg gymdeithasol ac anghenion gofal corfforol – e.e. toiled, bwydo sy'n gofyn am gymhwyso gweithdrefnau cymhleth, lle bo angen.
- Mabwysiadu dull ysgolion sy'n wybodus am drawma a PACE
- Cefnogi disgyblion i gyflawni achrediadau ar lefel briodol os yw'n briodol
- Deall llwybr y cwricwlwm y mae'r disgyblion yn eu dilyn
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o oruchwylio disgyblion, gan fynd gyda grwpiau bach o ddisgyblion ar deithiau byr oddi ar y safle.
- Defnyddio strategaethau ymyrraeth gorfforol/trin yn ddiogel ar ôl derbyn hyfforddiant (e.e. Team Teach).
- Llenwi'r ffurflen digwyddiadau/ damwweiniau mewn ymgynghoriad â'r athro dosbarth/Cydlynydd ADY/ Pennaeth

Cymorth i athrawon:

- Monitro cyflawniadau unigolion/grŵpiau o amcanion allweddol ac adborth i'r athro.
- Cyfrannu at asesu disgyblion trwy arsylwi ac adrodd.
- Cofnodi gwybodaeth sy'n berthnasol i asesu ac adolygu cynnydd disgyblion mewn cydweithrediad â'r athro

- Cefnogi gweithredu strategaethau i reoli ymddygiad heriol a difrifol disgyblion.
- Adrodd a chofnodi ymddygiadau gan ddefnyddio CPOMS
- Cyfranogiad gweithredol yn y gwaith o reoli'r amgylchedd dysgu o ddydd i ddydd: gan gynnwys cyfrifoldeb am ofal a pharatoi adnoddau addysgu, offer, a deunyddiau.
- Ymgymryd â thasgau gweinyddol arferol ac nad ydynt yn arferol yn unol â lefel y swydd.
- Cysylltu â rhieni/gofalwyr, athrawon arbenigol a staff proffesiynol eraill a rhannu a darparu gwybodaeth mewn cydweithrediad â'r athro.

Cymorth i'r ysgol:

- Deall a dilyn polisiau ac arferion yr ysgol yn llawn.
- Deall blaenoriaethau strategol yr ysgol a chwarae rhan wrth gefnogi datblygiad y rhain
- Mynychu sesiynau wedi'u amseru a'u cyfarwyddo i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad
- Ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant yr ystyrir i fod yn angenrheidiol

Mae gan nifer fawr o'n disgyblion awtistiaeth gymhleth gydag anawsterau dysgu dwfn a gallant gyflwyno ymddygiad hynod heriol. Mae Ysgol Penmaes yn ymarfer 'Team Teach', sef dull holistaidd o gefnogi ymddygiad ac ymyriadau.

Rydym yn darparu gwahanol cwricwlwm wedi'u personoli ac wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag anghenion holistaidd ein disgyblion. Mae disgyblion gyda gwahaniaethu wedi'i nodi fel rhan o'u haddysg ac amserlenni unigol fel y bo'n briodol, yn ogystal â gweithio ar sgiliau allweddol llythrennedd, rhifedd, a holl bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol.

Rydym am i bawb sy'n gweithio yn Ysgol Penmaes i feithrin amgylchedd dysgu atyniadol er mwyn sicrhau bod ein disgyblion yn treulio eu bywyd ysgol mewn amgylchedd ysgogol.

CYMWYSTERAU, HYFFORDDIANT A GALLUOEDD TEBYGOL

- Meddu ar o leiaf TGAU (neu gyfwerth) mewn Saesneg, Cymraeg os oes angen a Mathemateg (A*-C) a'r gallu i gyflwyno gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i eraill
- Meddu ar gymhwyster NVQ 2 ac wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol arall yn y strategaethau dysgu perthnasol, yn ddelfrydol sy'n arwain at safonau cenedlaethol (NVQ 3) neu'n meddu ar wybodaeth gyfatebol,
- Meddu ar brofiad o waith Cynorthwyydd Addysgu / Cynorthwyydd Addysgu ADY.
- Meddu ar lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth o ADY a meysydd o'r cwricwlwm.
- Yn gallu defnyddio TGCh yn effeithiol i gefnogi dysgu a defnyddio offer technoleg arall sy'n gysylltiedig ag anghenion disgyblion
- Meddu ar sgiliau cyfathrebu ychwanegol – e.e. profiad a sgiliau iaith arwyddion sylfaenol / Makaton
- Yn gallu delio â gofynion emosiynol a osodir ar y rôl
- Yn gallu cynllunio gwaith eich hunan pan fo angen
- Yn gallu trosglwyddo theori/hyfforddiant yn ymarferol
- Yn gallu datrys problemau
- Yn gallu defnyddio mentergarwch a gweithredu'n annibynnol

- Yn rhagweithiol wrth gynnig syniadau

CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	**Cynorthwyydd Addysgu – Lefel 2 (Arbennig)**
Rhif y Swydd:	**SSP0329**
Cod Gwerthuso Swyddi:	**SCH5**
Gwasanaeth:	**Ysgolion**
Lleoliad/Canolfan Waith:	**Ysgol Penmaes - Y Groes**

mae hon yn swydd gweithio o leoliad, ac felly bydd rhaid i'r sawl sydd yn y swydd weithio o leoliad penodol fel y nodir

Graddfa:	**Graddfa 5** **Pwynt 7 i Bwynt 9** **£27,274 i £28,153 y flwyddyn ar gyfartaledd** **£14.13 i £14.59 yr awr**
Oriau'r contract:	**32.5 awr, Cyfnod penodol am 1 flwyddyn**
Atebol i:	**Pennaeth a'r Corff Llywodraethu**
Cyfrifoldeb dros:	**Neb**

Crynodeb

Am y rôl:
Gweithio o dan oruchwyliaeth gyffredinol yr athro cyfrifol, cynorthwyo a chefnogi addysgu a dysgu, gweithio gydag unigolion neu grwpiau o ddisgyblion ag anghenion arbennig a darparu ar gyfer gofal, diogelwch a lles cyffredinol y disgyblion.

Am ragor o wybodaeth am y swydd hon, gallwch gysylltu â ysgol.

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

Cyfrifoldeb am eraill: Mae'r swydd yn effeithio ar les unigolion neu grwpiau trwy ddarparu gofal neu les priodol ar gyfer y rheini sy'n ddibynnol ar y swydd ar gyfer anghenion sylfaenol a thrwy helpu gydag asesiad.

Cyfrifoldeb am staff: Prin yw cyfrifoldeb uniongyrchol y swydd (os o gwbl) am oruchwylio staff eraill. Gall fod disgwyl i ddeiliad y swydd arddangos tasgau neu gynghori/arwain cyflogeion newydd, pobl ar brofiad gwaith neu bobl dan hyfforddiant.

Cyfrifoldeb am adnoddau ariannol: Prin yw cyfrifoldeb uniongyrchol y swydd (os o gwbl) am adnoddau ariannol. Gall ymdrin weithiau â symiau bach o arian, prosesu sieciau, anfonebau etc.

Cyfrifoldeb am adnoddau ffisegol: Mae gan y swydd rywfaint o gyfrifoldeb am adnoddau ffisegol, drwy drin a defnyddio offer yn ofalus, paratoi deunyddiau/ adnoddau addysgu a gofalu amdanynt, cadw cofnodion ac arsylwadau diogel a chywir.

TASGAU, DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Mae'r canlynol yn ychwanegol at ddyletswyddau a chyfrifoldebau nodweddiadol Cynorthwyydd Addysgu 1 Arbennig.

Cefnogi'r cwricwlwm:

- Cyfrannu at gynllunio a gwerthuso'r cwricwlwm a chynorthwyo ei weithredu. Gwneud gweithgareddau dysgu y cytunwyd arnynt, eu haddasu yn ôl ymatebion y disgyblion. Cefnogi defnyddio TGCh mewn gweithgareddau dysgu a datblygu gallu ac annibyniaeth y disgyblion i'w defnyddio e.e. defnyddio meddalwedd benodol, offer a chymhorthion i bobl â nam ar eu synhwyrau ac offer a chymhorthion cyfathrebu, yn ôl anghenion dysgu ychwanegol y disgybl.

Cefnogi'r disgyblion:

- Cefnogi unigolion neu grwpiau yn ystod gwaith annibynnol / grŵp, e.e. egluro tasgau, atgyfnerthu amcanion/cysyniadau neu eirfa allweddol, defnyddio cyfarpar ymarferol, cefnogi disgyblion llai galluog, ymestyn/herio'r rhai mwy galluog, cadw disgyblion yn canolbwyntio ar eu tasg, cynnal eu diddordeb, eu cymhelliant a'u hymgysylltiad.
- Helpu'r disgyblion i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a gwaith chwarae rôl.
- Cynorthwyo yn natblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion a datblygu hunan-barch.
- Annog ac atgyfnerthu rhyngweithio cadarnhaol rhwng disgyblion gan weithio'n unol ag unrhyw dargedau ymddygiad a osodwyd.
- Nodi patrymau ymddygiad annodweddiadol ac adrodd amdanynt.
- Monitro gofal, diogelwch a lles cyffredinol y disgyblion a darparu ar eu cyfer, gan gynnwys tasgau cysylltiedig ag addysg gymdeithasol ac anghenion gofal corfforol – e.e. mynd i'r toiled, bwydo pan fydd gofyn cymhwyso gweithdrefnau cymhleth, os oes angen.
- Cynorthwyo i oruchwylio disgyblion, gan fynd gyda grwpiau bach o ddisgyblion ar deithiau byr i ffwrdd o'r safle.
- Defnyddio strategaethau ymyriad corfforol/codi a chario diogel ar ôl cael hyfforddiant (e.e. Team-Teach).
- Llenwi ffurflen ddigwyddiad/ ffurflen ddamwain mewn ymgynghoriad ag athro dosbarth/Cydlynydd AAA/ Pennaeth

Cefnogi'r athro:

- Monitro unigolion/grwpiau yn cyflawni amcanion allweddol a rhoi adborth i'r athro.
- Cyfrannu at asesu'r disgyblion drwy arsylwi ac adrodd.
- Cofnodi gwybodaeth sy'n berthnasol i asesu ac adolygu cynnydd y disgyblion
- Mynychu cyfarfodydd adolygu datganiad a CAU

- Cefnogi'r gwaith o weithredu strategaethau i reoli ymddygiad y disgyblion a helpu i reoli ymddygiad y disgyblion.
- Ymwneud yn weithgar â rheoli'r amgylchedd dysgu o ddydd i ddydd: gan gynnwys cyfrifoldeb am ofalu am gymhorthion, offer a deunyddiau addysgu a'u paratoi.
- Gwneud tasgau gweinyddol rheolaidd ac afreolaidd.
  Cysylltu â rhieni/gofalwyr, athrawon arbenigol a staff proffesiynol eraill a rhannu a darparu gwybodaeth.

Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Oherwydd natur y gwaith sydd ynghlwm â'r swydd, bydd y swydd rydych yn ymgeisio amdani yn dod o dan y Gorchymyn Deddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013).

Mae gan y swydd hon ofyniad am Wiriad Manylach y DBS. Mae'r swydd hon yn cael ei chyfri'n weithgaredd rheoleiddiedig dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, a bydd yn destun gwirio rhestr o'r bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

Gofynion Iechyd a Diogelwch
Cydweithio â'r cyflogwr a dilyn cyngor a chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch

Datganiad Cydraddoldebau:
Cadw at egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y nodir hwy ym Mholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor

Gofynion y Gymraeg
Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

SYLWCH;

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlyniol yn eich cais.

Profiad

- Profiad o waith Cynorthwyydd Addysg / Cynorthwyydd Addysg AAA

Gwybodaeth

- Deall polisïau'r ysgol a sut maent yn gysylltiedig â fframweithiau/polisïau lleol a chenedlaethol (E.e. amddiffyn plant, iechyd a diogelwch, cyfle cyfartal, Cod Ymarfer AAA, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd)
- Lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth am AAA a meysydd y cwricwlwm.

Cofrestriadau, Cymwysterau a Hyfforddiant

- leiaf un TGAU (neu gymhwyster cyfwerth) mewn Saesneg, Cymraeg, os yw'n ofynnol, a Mathemateg (A*-C) a gallu cyflwyno gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i eraill.
- Meddu ar gymhwyster NVQ 2 ac wedi gwneud hyfforddiant priodol arall yn y strategaethau dysgu perthnasol, gan arwain yn ddelfrydol at safonau cenedlaethol (NVQ 3) neu feddu ar wybodaeth, profiad a sgiliau perthnasol
- Wedi gwneud hyfforddiant pellach ar agweddau ar y cwricwlwm neu feysydd angen arbennig penodol.

Rhinweddau Personal

- Gallu ymdopi â gofynion emosiynol y swydd
- Gallu cynllunio ei waith ei hun pan fydd gofyn
- Gallu trosglwyddo theori/hyfforddiant i'w rhoi ar waith
- Gallu gweithio ar ei liwt ei hun a gweithio'n annibynnol
- Yn rhagweithiol yn cynnig syniadau

Sgiliau

- Gallu defnyddio TGCh yn effeithiol i gefnogi dysgu a defnyddio offer technolegol arall sy'n berthnasol i anghenion y disgyblion
- Sgiliau cyfathrebu ychwanegol – e.e. iaith arwyddion sylfaenol / Makaton
- Gallu datrys problemau

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

Ein gwerthoedd:

Proffesiynol
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

Cydweithiol
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Gair i gall:

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn gyflawn

Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 22/11/2026
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 23/11/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Bydd y cyfweliadau'n digwydd ar W/C 30/11/2026

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.